IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 17 AWST 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Murphy |

8 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddaeth dim i law.

9 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - KINGS ROAD YARD COURTYARD,

Gohiriwyd y cais hwn gan nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

10 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE – WARWS TITAN, TITAN ROAD

Cafodd y Cais hwn ei ohirio tan y Pwyllgor sydd wedi'i amserlenni ar gyfer 31 Awst 2018.

11 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Mr Grant Jones |
| Awdurdodau Cyfrifol: | PC Rob Gunstone, Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru |

<u>Cais</u>

Derbyniwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar 8 Awst 2018 gan Mr Grant Jones

Roedd yr hysbysiad ynglŷn â digwyddiad a gaiff ei gynnal rhwng 25 a 27 Awst 2018 rhwng 13:00 a 02:30 bob dydd. Cynigir i'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ganiatáu gwerthu trwy fanwerthu alcohol a darparu adloniant a reoleiddir parthed Gŵyl yr Hybiau.

<u>Sylwadau'r Awdurdodau Cyfrifol</u>

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor bod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r hysbysiad digwyddiad dros dro o dan yr amcanion trwyddedu, Atal Troseddau ac Anhrefn a Diogelwch y Cyhoedd.

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y cafodd y cais ei wneud ar ddydd Mawrth 7 Awst 2018. Roedd yr ymgeisydd, Mr Grant Jones yn ceisio cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ar ffurf gwerthu alcohol a chwarae cerddoriaeth ar Heol Womanby yng Nghaerdydd fel rhan o'r Gŵyl yr Hybiau 2018 arfaethedig. Disgrifiodd Mr Jones yr ŵyl hon fel digwyddiad blynyddol sy'n cael ei gynnal dros ddeuddydd. Dywedodd yr ymgeisydd y byddai llwyfannau mewn 10 lleoliad yn cynnal amrywiaeth o grwpiau drwy gydol cyfnod y digwyddiad. Mae digwyddiad eleni yn wahanol i ddigwyddiadau

blaenorol sef na fyddai unrhyw le preifat at gyfer llwyfan ac y câi llwyfan ei osod ar y stryd ei hun lle y byddai Troellwyr yn perfformio rhwng hanner dydd a 2200. Am 2200, byddai'r gerddoriaeth yn dod i ben a byddai’r digwyddiad yn troi’n ddisgo distaw.

Union leoliad y digwyddiad fyddai Heol Womanby rhaneg adeiladau’r Fuel Bar a Jones Court. Roedd yr ymgeisydd yn gofyn am werthu alcohol ar y safle ac oddi arno. Yr oriau y gofynnir amdanynt ar gyfer y gweithgareddau trwyddedadwy i’w cynnal rhwng 1300 a 0230 bob dydd.

Dywedodd PC Gunstone wrth yr is-bwyllgor ei fod wedi cysylltu â’r ymgeisydd ar fore dydd Gwener 10 Awst ac wedi trafod y cais gydag ef. Roedd yn anodd pennu union natur a chynllun y digwyddiad a gofynnodd y swyddog am gynllun safle ac amserlen gweithredu ar gyfer y digwyddiad. Hefyd, gan ystyried goblygiadau diogelwch digwydd o’r fath, gofynnodd y swyddog Asesiad o Risg Tân cyfredol ar gyfer y digwyddiad.

Dywedwyd wrth Mr Jones, ar hyn o bryd, heb y dogfennau ategol hyn câi gwrthwynebiad ei wneud i’r cais ar sail Atal Troseddau ac Anrhefn a chynnal a chadw Diogelwch y Cyhoedd.

Dywedodd Mr Jones y byddai’n darparu’r dogfennau y gofynnwyd amdanynt ond dywedodd ei fod yn annhebygol y câi eu darparu y diwrnod hwnnw gan ei fod i ffwrdd o Gaerdydd. Dywedodd PC Gunstone wrth Mr Jones y byddai ar gael i gyfarfod yr wythnos ganlynol ond dywedodd Mr Jones ei fod yng Nghaeredin yr wythnos ganlynol ond ei fod yn bosib y gallai cynrychiolwyr y trefnwyr fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod.

O ganlyniad, ar Ddydd Gwener 10 Awst 2018, dywedodd PC Gunstone yn ffurfiol wrth Adran Trwyddedu’r Cyngor am y gwrthwynebiad a wnaed gan Heddlu De Cymru ynglŷn â’r cais hwn, trwy e-bost. Ddydd Mawrth 14 Awst 2018, derbyniwyd e-bost gan Mr Jones gyda Chynllun y Digwyddiad – gweithdrefnau gweithredu, Cynllun y Stryd a dogfennau Asesiad Risg Gŵyl yr Hybiau wedi’u hatodi.

Ar yr un diwrnod, gofynnodd PC Gunstone eglurhad, trwy e-bost a ddychwelwyd, o ddogfen y cynllun stryd. Ddydd Mercer 15 Awst anfonwyd ymlaen yr e-bost uchod gan Mr Jones at Adrian Moyse o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ymatebodd gydag asesiad cychwynnol o’r wybodaeth a ddarparwyd gan Mr Jones a dywedodd;

“Gallaf gadarnhau nad yw’r adran ar Asesiad Risg Tân yn addas ac yn ddigonol.”

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, ffoniodd PC Gunstone Mr Jones er mwyn trafod y materion gydag ef. Nid oedd ateb a gadawyd neges llais i annog Mr Jones i gysylltu â’r swyddog er mwyn symud y materion ymlaen. Y bore trannoeth, ffoniodd PC Gunstone Mr Jones eto ac eto ni chafwyd ateb. Gadwyd neges yn gofyn iddo gysylltu er mwyn trafod materion yn perthyn i’r cais.

Ar fore dydd Iau 16 Awst, derbyniodd PC Gunstone e-bost gan Mr Jones yn dweud wrth y swyddog nad oedd yn gallu ategu copi a ddiweddarwyd o’r cyn llun fel y gofynnwyd amdano ar 14 Awst. Awgrymodd Mr Jones gyfarfod yn Heol Womanby am 08:00 ar fore dydd Gwener 17 Awst er mwyn disgrifio’r safle. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, anfonodd PC Gunstone y wybodaeth a ddarparwyd gan Mr Jones ar

14 Awst ymlaen at Stephen Morgan – Swyddogaeth Diogelwch Tân o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Yn ei dro, anfonodd yntau hyn i Matthew Bradford, eto o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a ddywedodd nad oedd unrhyw wybodaeth parthed; nifer o allanfeydd sydd ar gael o'r mannau â ffensys, maint y lle a gaiff ffensys o'i gwmpas, beth yw nifer y meddiannwyr ar gyfer y mannau hyn, sut caiff y niferoedd hyn eu rheoli, sut caiff y mannau y tu allan i'r mannau â ffensys eu rheoli, er enghraifft mewn argyfwng pan fyddai problemau sylweddol gyda thorfeydd, nifer y staff diogelwch fydd ar gael, pa fesurau rheoli sydd ar waith i ddiffodd y sain ar gyfer y disgo distaw, a yw asesiadau risg ar gael ar gyfer y stondinau bwyd.

Cysylltodd PC Gunstone â Mr Jones eto dros y ffôn er mwyn trafod materion. Eto, ni chafod ateb a gadawyd neges yn gofyn am i Mr Jones gysylltu.

Yn niffyg unrhyw gysylltiad gyda'r ymgeisydd, cysylltodd PC Gunstone â Mr Steve Bines, yr oedd yn ymwybodol ei fod wedi bod yn rhan o'r digwyddiad o'r blaen, er mwyn ceisio symud materion ymlaen. Er nad oedd Mr Bines yn rhan o'r digwyddiad eleni, dywedodd y byddai'n gwneud ymdrech i symud materion ymlaen gorau a gallai.

Hefyd gysylltwyd ag Adran Briffyrdd y Cyngor, dywedodd y swyddogion nad oeddent yn ymwybodol o'r digwyddiad ond nad oedd hyn yn rhywbeth a welid fel problem i'r Adran Briffyrdd fel y cyfryw. Fodd bynnag, codwyd pryderon sef eu bod yn teimlo o dylent fod wedi cael gwybod er mwyn osgoi, er enghraifft, caniatâd yn cael ei roi i unrhyw ddarparwyr cyfleustodau i wneud gwaith yn ardal y digwyddiad yn ystod y cyfnod y gwnaed cais ar ei gyfer. Hefyd, gallai mesurau sydd ar gael i amddiffyn y digwyddiad, y cyfranogwyr a'i noddwyr megis codi Bolardiau Lliniaru Cerbydau Gelyniaethus fod wedi cael eu gweithredu.

Derbyniwyd cyswllt ychwanegol gan Mark Miller, Rheolwr Rhanbarthol J.D Wetherspoons, sy'n berchnogion ar dafarn y Gatekeeper. Mae Mr Miller wedi mynegi pryderon am y digwyddiad oherwydd mewn blynyddoedd blaenorol mae eu hadeiladau wedi derbyn niferoedd sylweddol o fynychwyr yr ŵyl sy'n defnyddio eu toiledau heb fod o fudd i'r adeiladau eu hunain, sy'n gofyn am staff diogelwch ychwanegol.

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor nad yw Heddlu De Cymru yn erbyn y digwyddiad hwn yn mynd yn ei flaen ond ar hyn o bryd nid ydynt yn fodlon bod mesurau digonol ar waith i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd yn yr hyn a fyddai'n ddigwyddiad o faint a hyd sylweddol ar hyn sydd eisoes yn benwythnos prysur ynghanol y ddinas. Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y cefnogwyd y pryderon hyn gan yr arsylwadau cychwynnol a wnaed gan gynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr is-bwyllgor ei fod yn rhedeg tafarn y Moon sy'n cynnal Gŵyl yr Hybiau. O'r blaen roeddent wedi defnyddio Jones Court a Sullys Yard i gynnal y llwyan ond ni allent gael mynediad eleni felly roedd y llwyfan yn symud i'r stryd, eglurodd y byddai'r 'llwyfan' mewn gwirionedd yn gazebo ar gyfer y Troellwyr. Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor, oherwydd ei fod yn gais Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, na fyddai mwy na 499 o bobl, ac y byddai rhwystrau ar bob pen o'r stryd er mwyn rheoli'r niferoedd. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor bod yr holl adeiladau ar Heol Womanby yn rhan o 'r ŵyl ac yn gweithio gyda'i gilydd, amlinellwyd manylion o'r cais,

gan gynnwys y gerddoriaeth yn dod i ben am 22.00 a disgo distaw yn dechrau am 23.00.

Eglurodd yr Ymgeisydd o ran a fyddai angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar wahân ar gyfer y bar yn yr awyr agored a dywedwyd wrtho y byddai'n rhaid rhannu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro rhwng y bar a'r man ar gyfer cerddoriaeth.

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y byddai gardiau diogelwch ar bob pen y stryd. Dywedodd y byddai'n siarad â'r Swyddog Tân cyn gynted ag y bo modd er mwyn cael eglurhad o'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt.

Dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai unrhyw gynhwysyddion gwydr yn cael eu defnyddio yn y bar awyr agored, byddai ychydig o seddau paled a gwerthu alcohol oddi ar y safle.  Câi'r ddau stondin bwyd eu pweru gan generadur disel.

Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor y câi popeth ar y stryd ei ddymchwel a'i storio yn Jones Court am 02.30 dros nos, a'i ailgodi eto y diwrnod wedyn.

Gofynnodd PC Gunstone am eglurhad o niferoedd y gardiau diogelwch a gwiriodd y dibynnid ar ddiogelwch y lleoliad.  Ar ôl trafodaeth, cytunodd yr ymgeisydd i fod â 2 o staff diogelwch ar bob pen i alluogi seibiannau, ayyb oherwydd oriau hir y digwyddiad.  Dywedodd yr Ymgeisydd hefyd y byddai tua 11 o Stiwardiaid Gwirfoddol y gellid eu hadnabod gan ddillad gweledwdd uchel.  Ystyriodd yr Aelodau y dylid rhoi system sifftiau ar waith at gyfer y Stiwardiaid.

Gofynnodd yr is-bwyllgor am eglurhad ar y 10 llwyfan a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad a dywedwyd wrthynt y byddai'r rhain o fewn y gwahanol leoliadau yn Heol Womanby

Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r Ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r sylw gan Wetherspoons ac ystyriodd yr Ymgeisydd y byddai Wetherspoons yn elwa'n fasnachol mewn gwirionedd o'r digwyddiad, byddent yn brysur iawn oherwydd bydd y diodydd yn rhatach na'r diodydd a werthir yn yr ŵyl.  Ychwanegol eu bod bob amser wedi bod yn barod iawn eu cymwynas yn ystod yr ŵyl yn y gorffennol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar sut y byddai'r rhwystrau ar bob pen y stryd yn gweithio a dywedwyd wrthynt y byddai un fynedfa bob pen a bwrdd â staff.  O ran y disgo distaw byddai £5 o flaendal am y clustffonau a ffi mynediad o £5 felly wrth adael byddai pobl yn dychwelyd y clustffonau i gael eu blaendal yn ôl, câi hyn ei wneud ar fwrdd wrth rwystr yr allanfa.  Byddai staff diogelwch ar bob pen yn cadw mewn cysylltiad âi' gilydd ac yn rheoli'r niferoedd.

<u>Crynhoi</u>

Dywedodd PC Gunstone y byddai hwn yn ddigwyddiad mawr dros yr hyn a oedd eisoes yn benwythnos gŵyl y banc prysur iawn.  Byddai paratoi at y digwyddiad wedi elwa ar ymgynghori'n well, yn hytrach na chynllunio ar y funud olaf a roddodd straen ar yr ymgeisydd ac a olygodd fod rhaid i Heddlu De Cymru wrthwynebu.  Ystyriodd PC Gunstone, os cafwyd caniatâd i ddigwydd, byddai angen rhagor o sgyrsiau er mwyn trafod rhagor o fanylion.  Ychwanegodd fod angen i lawer o bobl mewn ardal fach gael eu rheoli'n briodol.  Cytunodd yr Ymgeisydd a dywedodd y byddai'n gweithio gyda phawb oedd yn cymryd rhan; dyma oedd y tro cyntaf iddo fod yn rhan o fan fanylion yr ŵyl a bu llawer i'w ddysgu mewn cyfnod byr.

PENDERFYNWYD:  Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth; ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Arweiniad Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, bod yr Is-bwyllgor yn caniatáu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am